# DATBLYGU SGILIAU CYMRAEG

## Ysgrifennu Cynllun gwers

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Institute of Education Addysg i Gymru Education for Wales | APLP PDPA

### Cynllun Gwers Cam 1

**Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Darpar Athro | Kate Sloan | Dosbarth: | 7 R |
| Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc | Cymraeg Ail Iaith | Dyddiad: | 08/11/19 |
| Ffocws Gwers: | Cyflwyno thema newydd sef 'amser hamdden' a geiriau allweddol i gyd-fynd a'r thema. | | |
| Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm | Tasgau sy'n cynnwys tair elfen y cwricwlwm sef darllen, siarad ac ysgrifennu. | | |
| Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd | Llythrennedd:<br><br>Ysgrifennu: Bydd y dysgwr yn ysgrifennu adroddiad am bwnc gan gyflwyno gwybodaeth, prosesau a syniadau'n glir ac yn addas at y diben. (Tasg ysgrifennu)<br><br>Darllen: Bydd y dysgwr yn defnyddio'u gwybodaeth am gynnwys a chyd destun i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan. (Yn y dasg ddarllen a deall/ cywir, anghywir)<br><br>Llafar: Ymateb i gwestiynau a sylwadau'r gwrandawyr yn adeiladol ac yn fanwl. (wrth ymateb ar lafar i'r cwestiynau yn y dasg danio)<br><br>Iechyd a Lles:<br>Trwy siarad am beth y mae disgyblion yn gwneud yn eu hamser hamdden a pham maent yn dysgu am sut i ymlacio a gweithgareddau y maent yn gallu gwneud yn eu cymuned. | | |
| Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)<br><br>Gwers cyntaf fel darpar athrawes – dim targedau eto). | | | |

| Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy): |
|---|
| Erbyn diwedd y wers, bydd y disgyblion yn dysgu geiriau allweddol i gyd-fynd a'r thema hamdden. Bydd y disgyblion hefyd yn dysgu patrymau brawddeg i fynegi barn am y gweithgareddau y maent yn gwneud yn eu hamser hamdden. Bydd rhai o'r disgyblion hefyd yn ymarfer defnyddio'r trydydd person wrth drafod pa fath o weithgareddau y mae teuluoedd a ffrindiau yn gwneud yn eu hamser hamdden. |

1

| Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu) | Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir) |
|---|---|
| 1) Wrth wneud y dasg danio, sef cofio geiriau allweddol ar y bwrdd, bydd y disgyblion yn gallu adnabod y geirfa allweddol i'r thema ac wrth ganolbwyntio arnynt, bydd y disgyblion yn gallu galw i gof y geiriau wrth iddynt diflannu.<br>2) Bydd cyfle i'r disgyblion ymarfer ynganu'r eirfa wrth gwblhau'r ail dasg sef drilio'r geirfa. Wrth adrodd y geirfa ar ôl fi, bydd y disgyblion yn gallu ynganu'r eirfa yn gywir ac yn glir.<br>3) Bydd y disgyblion yn dysgu sut i sillafu'r geiriau allweddol yn gywir. Wrth llenwi'r Diamond 9, bydd y disgyblion yn cael y cyfle i ysgrifennu'r geiriau ar bapur. Bydd y disgyblion yn asesu sillafu eu cyfoedion sy'n mynd i atgyfnethu sut i sillafu geiriau allweddol.<br>4) Wrth gwblhau'r dasg ddarllen sef tasg cywir/anghywir, bydd y disgyblion yn dod yn gyfarwydd gyda phatrymau mynegi barn yn ogystal â geiriau allweddol y thema yn eu cyd-destun. Bydd y disgyblion yn gallu dadansoddi'r testun er mwyn ateb y cwestiynau yn gywir sy'n dangos eu dealltwriaeth o'r patrymau brawddeg a geiriau allweddol.<br>5) Bydd y disgyblion yn ymateb i gwestiwn am beth y maent yn hoffi gwneud yn eu hamser hamdden yn ysgrifennedig gan ddefnyddio patrymau brawddeg cywir, gyda sillafu a gramadeg cywir. | 1) Wrth i'r geiriau allweddol ddiflannu, bydd rhaid i'r disgyblion gweiddi mas pa air sydd wedi mynd ar goll. Bydd hyn yn dangos os ydynt yn cofio'r geirfa ond hefyd bydd yn cyfle i'r disgyblion ymarfer ynganu'r geirfa. Wrth derbyn yr atebion, byddai i'n ceisio ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion gan ofyn iddynt i gyfieithu'r geiriau a cheisio rhoi'r gair mewn brawddeg. Bydd hyn yn ffordd o asesu'r dealltwriaeth y disgyblion yn ogystal ag herio'r disgyblion MATh<br>2) Bydd cyfle i asesu sut y mae disgyblion yn ynganu'r eirfa wrth gwrando iddynt ac wrth ofyn iddynt ail adrodd os oes unrhyw camgymeriadau yn digwydd.<br>3) Wrth wneud asesu cyfoed ar sillafu yn y diamond 9, bydd y disgyblion yn cael cyfle i farcio gwaith pobl eraill a gosod targedau sillafu. Bydd hyn yn helpu darganfod camgymeriadau a bydd y disgybl a phartner yn dysgu o unrhyw gamgymeriadau.<br>4) Bydd cyfle i asesu dealltwriaeth y disgyblion o'r dasg ddarllen wrth ofyn iddynt farcio eu gwaith yn ôl yr atebion ar y bwrdd gwyn. Bydda i'n gofyn i'r disgyblion ddangos eu sgoriau gan ofyn am ddwylo fyny. E.e. 'Dwylo fyny os ydych chi wedi cael marciau llawn.'<br>5) Bydd cyfle i asesu-cyfoed y gwaith ysgrifennedig. Bydd meini prawf llwyddiant ar y bwrdd gwyn a bydd |

2

fel siaradwr Cymraeg ail iaith, a rhywun sydd wedi dysgu'r iaith, mae'n bwysig fy mod i'n manteisio ar bob cyfle i ddefnyddio ac ymarfer fy sgiliau iaith. Yn enwedig oherwydd fy mod i'n addysgu'r Cymraeg. Felly trwy ysgrifennu pob cynllun gwers yn y Cymraeg rydw i'n datblygu fy sgiliau ysgrifenedig. Ar ôl imi gyflwyno pob cynllun gwers, cafon nhw eu marcio ar gyfer unrhyw gamgymeriadau iaith, wrth dderbyn sylwadau fy mentor, mi wnes i wneud nod o unrhyw gamgymeriadau neu rheolau iaith i gofio yn y dyfodol. G… llyfr lle ysgrifennais y nodiadau.




## Llyfr iaith personol

# Gwersi Cymraeg i Bawb

Yn ystod ein sesiynau yn y brifysgol, wnaethon ni fynychu sesiynau gwella Cymraeg neu Cymraeg i bawb. Ar gyfer y sesiynau hyn, roeddwn i mewn grŵp Cyfrwng Cymraeg gyda siaradwyr rhugl y brifysgol a myfyriwr sy'n dysgu trwy gyfrwng y Cymraeg. Ffocws y sesiynau hyn oedd i ymestyn ein dealltwriaeth o'r Cymraeg gyda ffocws penodol ar rheolau iaith. Yr oedd hyn yn defnyddiol i fy helpu i adolygu rheolau gramadegol mi wnes i ddysgu yn ystod fy ngradd israddedig yn y Cymraeg. Gwelir isod rhai o fy nodiadau o'r sesiynau iaith.

/ /

**Enw diriaethol**
Enw am rhywbeth go iawn - gallwn ni gyffwrdd ag e
e.e; wal, desg, cas bensil

**Enw haniaethol**
Rhywbeth ti methu gweld e.e hapusrwydd, tristwch ayyb.

**Rhagenw**
Rhywbeth ti'n gwneud - gair ti'n gallu ffindo yn y geiriadur
e.e; rhedeg, cerdded

**Berf**
Berf + person/amser e.e; rhedodd, gwelais

**Adferf**
Ansoddair sy'n disgrifio berf e.e; rhedais yn gyflym.

**Goddrych a Gwrthrych** (subject + object of the verb)
Goddrych = yr un sy'n gwneud y weithred (subject)
Gwrthrych = yr un sy'n dioddef y weithred (object).

Darllenodd y [disgybl] [llyfr] da ddoe
[disgybl] → Goddrych
[llyfr] → Gwrthrych.

**Gwella'r Gymaeg a Chymraeg i bawb** 10/09/19
- Nia Cole Jones - 01792 482115 (canolfan Dylan Thomas)

**Trafod**
- Rhannau ymadrodd - sut i drafod enw/berf/ansoddair
- Cenedl enwau a'r treiglo
- Gofyn cwestiynau
- rhoi gorchmynion
- Gwallau cyffredin

**Adnoddau**
- un porffor sy'n gweithio ar mac ond defnyddio'r un prifysgol ar gyfer asesiadau.
- termau Cymru - porth termau cenedlaethol Cymru.
- Geiriadur yr academi ar lein
- tystysgrif cymhwysedd iaith - adnoddau ar y wefan (Angen cofrestru) a thystysgrif sgiliau iaith.
- Gwefan canolfan peniarth
- 

**Cefndgaeth cyfrwng Cymraeg**

Iaith athrawon yfory.
£2,500 i gwblhau'r TAR trwy gyfrwng y Cymraeg.
£2,500 am swydd ar ôl (cc neu ddwyieithog).

**Cymraeg i bawb** 17/09/19
classtools.net → Pico enwau

**rhannau ymadrodd**
termau gramadegol sy'n ein helpu ni i wybod sut mae geiriau'n ymddwyn e.e sut a pham maent yn treiglo/lle maen nhw'n sefyll yn y brawddeg.
e.e. enw unigol, lluosog, gyrwaidd ayyb → yr rhestr i gyd

**Enw**
Gair sy'n cael ei roi ar rhywbeth er mwyn adnabod a gwybod beth ydyn nhw.
gwahanol ffurfiau = unigol, lluosog.

**enwau benywaidd a gywrywaidd**
Troed
munud
llygaid

**enw priod**
Enw person, enw iaith, enw lle, unrhywbeth sy'n dechrau gyda phrif llythren.

**enw torfarol**
Enw ar gasgliad neu grŵp o bobl e.e tyrfa, haid

**Adolygu** 24/09/19

1) Ysgol ✓
2) Drwm ✓
3) Am ✓
4) Adeiladau ✓
5) Hapusrwydd ✓
~~6)~~

5/5 ü ardderchog

**Enwau benywaidd/Gwrywaidd**
Enw EG a EB - gallu newid o ran dafodiaith e.e. dwy funud (De), dau funud (Gogledd).

**Gywaidd**
- sdim treiglad ar ôl 'y' e.e 'y bachgen'.
- Ansoddeiriau dim yn treiglo ar ôl enwau gywraidd e.e bachgen, da, bachgen bach
- Rhifau - dau = [TM] pedwar = [X]
  tri = [TLL]

**Benywaidd**
- enw benywaidd unigol - treiglo'n feddal ar ôl y fannod Ond dim 'll/rh'.
- Ansoddeiriau'n treiglo'n feddal ~~fe~~ ar ôl enw benywaidd e.e merch alluog, y desg fawr.
- rhif - dwy = [TM] pedair = X
  tair = X

# Fframwaith Cymraeg.

Er mwyn i'r brifysgol asesu ein gallu yn y Gymraeg, yr oedd rhaid inni dysgu gwers sydd wedi cael ei hasesu yn ôl y fframwaith isod. Mi wnes i gynllunio gwers ar gyfer blwyddyn 7 lle yr oedd ffocws y wers i adolygu rheolau treiglo. Yr oedd rhaid inni hefyd gwneud cynllun gwers llawn, paratoi adnoddau yn y Gymraeg ac adfyfyrio ar ein defnydd o'r iaith yn ystod y wers.

Fframwaith cymhwysedd cymraeg

| | C1 - HYFEDREDD | |
|---|---|---|
| GWRANDO | Gallu deall ac ymateb i bopeth sy'n cael ei glywed gan gynnwys gwahanol acenion, tafodieithoedd a chyflymder y siaradwr | • Rhyngweithio'n estynedig, yn hyderus ac yn naturiol gyda dysgwyr gan arddangos dealltwriaeth gadarn wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafaredd (siarad a gwrando) ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd<br>• Gwrando ar ystod o wybodaeth a syniadau o wahanol safbwyntiau, ac ymateb i adwaith y gwrandawyr ac addasu eu hiaith yn ôl y cyd-destun a'r diben. |
| LLAFAR | Gallu siarad yn estynedig am faterion cymhleth, cyflwyno dadleuon gan ddefnyddio'r cywair priodol.<br>Rhyngweithio ac arwain trafodaethau a sesiynau addysgu estynedig yn gywir gan amlaf.<br>Gallu hunangywiro lle bo angen. | • Defnyddio cyfoeth o adnoddau iaith Gymraeg yn naturiol, hyderus a chywir gan fwyaf ar draws y cwricwlwm, gyda'r gallu i ehangu trafodaeth, arddangos gwybodaeth o gywair, cyfleu safbwynt, disgrifio'n fedrus, cymharu, defnyddio geirfa eang gydag ystod o briod-ddulliau<br>• Cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, e.e. mynegiant, tôn y llais.<br>• Defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir, ynghyd â defnydd cywir o dermau cenedl enwau ac arddodiaid gyda'r gallu i hunangywiro a chywiro eraill ar lafar yn ôl yr angen. |
| DARLLEN | Gallu crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, ail-greu dadleuon a disgrifiadau mewn cyflwyniad cydlynus.<br>Gallu darllen straeon i ddysgwyr o bob oedran yn hyderus ac ystyrlon. | • Darllen ar goedd yn naturiol ac eglur, dadansoddi testunau a'u his-destunau gan ymateb a chyfleu syniadau'n glir ac mewn ffordd briodol<br>• Defnyddio unrhyw nodiadau'n effeithiol iawn er mwyn llywio'r wers. |
| YSGRIFENNU | Gallu ysgrifennu'n estynedig ac yn safonol am faterion cymhleth.<br>Ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau.<br>Gallu hunangywiro lle bo angen gan ddangos defnydd cywir o arfau iaith cyfrifiadurol. | • Ysgrifennu darnau estynedig sy'n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, ynghyd â darnau byrrach sy'n crynhoi, gan addasu'r arddull a'r ffurf yn hyderus ar gyfer y darllenydd neu'r gynulleidfa<br>• Ysgrifennu'n fedrus a chywir tra'n arddangos gwybodaeth dda iawn o reolau gramadeg, atalnodi gan ddefnyddio strategaethau a chymorth arfau iaith cyfrifiadurol i wirio gwaith personol ac eraill. |




Enghraifft o'r adnoddau mi wnes i greu ar gyfer y wers

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant / University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Institute of Education — Addysg i Gymru / Education for Wales | APLP PDPA

Cynllun Gwers Cam 1

**Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Darpar Athro | Kate Sloan | Dosbarth: | Bl.7 (Q) |
| Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc | Cymraeg (Iaith Gyntaf) | Dyddiad: | 27/01/20 |
| Ffocws Gwers: | Canolbwyntia'r wers ar adolygu rheolau treiglo ar gyfer y prawf gramadeg wythnos nesaf. Bydd ffocws ieithyddol yn y wers hon. | | |
| Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm | **Ysgrifennu:**<br>Iaith- Bydd y disgyblion yn defnyddio geirfa amrywiol a phwrpasol yn gywir gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol.<br><br>Cystrawen, atalnodi, sillafu, llawysgrifen- Bydd y disgyblion yn dangos gafael dda ar gystrawen a phatrymau naturiol y Gymraeg gan saernïo'u hiaith a meithrin cywirdeb wrth ysgrifennu.<br><br>Bydd y disgyblion yn dod yn fwy cyfarwydd gyda'r rheolau treiglo ac yn eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol.<br><br>**Cwricwlwm Cymreig:**<br>Defnyddio'r iaith Gymraeg gan roi cyfle i bawb i'w dysgu a'i defnyddio. | | |
| Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd | Llythrennedd | | |

Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)
- Amseru'r wers er mwyn sicrhau nad yw gormod o amser yn cael ei dreulio ar un dasg.
- Sicrhau i herio'r disgyblion mwy abl a thalentog.
- sicrhau bod amser yn cael ei roi ar ddiwedd y wers i roi cyfle i'r disgyblion dacluso eu llyfrau a'r ystafell ddosbarth.

Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy):

Bydd disgyblion yn dysgu i wneud y canlynol:
- Deall a dwyn i gof y rheolau treiglo.
- Defnyddio'r rheolau treiglo cywir yn gyson yn eu gwaith ysgrifenedig.
- Defnyddio a chydnabod rheolau treiglo mewn ystod eang o gyd-destunau.

| Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu) | Asesu Dysgu'r Disgyblion<br>Tystiolaeth<br>(Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir) |
|---|---|

| | |
|---|---|
| • Llenwi grid cyfieithu yn llwyddiannus.<br>• Defnyddio'u gwybodaeth o rheolau treiglo er mwyn paru rheolau gyda'r treiglad cywir.<br>• Cyfieithu brawddegau wrth sicrhau i dreiglo'n gywir.<br>• Cywiro brawddegau gan gydnabod camgymeriadau treiglo a sut i'w cywiro.<br>• Defnyddio ystod o dreigladau'n gywir yn eu cyd-destun. | • Byddaf yn asesu'r disgyblion ar lafar drwy gwestiynu yn ystod y wers.<br>• Byddaf yn asesu ar lawr dosbarth wrth grwydro a sicrhau bod pawb yn ateb y cwestiynau'n gywir.<br>• Asesu trwy ddefnydd o dasgau byrion. |

Cynllun gwers ar gyfer yr asesiad

# Ysgrifennu datganiad personol a mynychu cyfweliadau

File Home Insert Draw Layout Review View

B I U A Sensitivity

Fel rhywun sydd wedi dysgu'r Gymraeg ac rhywun sy'n gweld ein iaith, ein hanes ac ein diwylliant fel rhywbeth i fod mor falch ohono, i ddathlu ac i gofio, byddai'r cyfle i addysgu'r Gymraeg yn eich ysgol o gryn ddiddordeb imi. Yr oeddwn i'n lwcus i gael profiad ysgol anhygoel ac mae gen i'r gred gref ni fyddwn i yn y sefyllfa fy mod i yn heddiw, heb yr athrawon sydd wedi fy nghefnogi ac ysbrydoli, ac fy mod i'n awyddus iawn i roi'r un profiadau ac angerdd o ddysgu i bob disgybl fy mod i'n cael y pleser o addysgu. Rwyf yn astudio TAR Cymraeg Uwchradd ym mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a gobeithiaf gymhwyso ac ennill fy SAC ym mis Gorffennaf 2020. Graddiais yn 2019 o Brifysgol Caerdydd gyda gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth, Adran Un yn y Gymraeg. Fel rhan o fy astudiaethau cyfredol ar y cwrs TAR, addysgais Cymraeg ail iaith o fewn cyfnod allweddol tri a phedwar gan arsylwi gwersi yng nghyfnod allweddol pump hefyd, yn ogystal â dysgu Cymraeg iaith gyntaf i ddosbarth blwyddyn saith.

Trwy gydol fy astudiaethau o'r Gymraeg, ces i fy annog i weld y Gymraeg fel mwy na dim ond iaith, ond fel ffordd o fyw. Felly, bydd yn fraint i fod yn athrawes y Gymraeg mewn ysgol sy'n blaenoriaethu dwyieithrwydd ac ysgol sy'n cofleidio'r iaith, diwylliant a'r traddodiadau yn llawn. Fel siaradwyr ail iaith o dref fach yn Sir Benfro, rwy'n deall yn llwyr y broses o ddysgu iaith yn enwedig wrth fyw mewn ardal lle mae'r iaith heb gynrichiolaeth ddigonol. Felly, credaf wrth addysgu'r Gymraeg yn eich ysgol, fy mod i'n gallu rhannu fy angerdd, pwysleisio'r pwysigrwydd a dangos gall pawb, hyd yn oed siaradwyr ail iaith fod yn hyfedr yn yr iaith Gymraeg a thrwy gwneud hyn hefyd yn helpu Llywodraeth Cymru (newid hwn i Cymru?) ar ei ffordd i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Wrth ystyried hwn a'r datblygiadau i'r cwricwlwm newydd i Gymru, mae hwn yn gyfnod hynod o gyffrous i'r i fyd addysg ac i'r Gymraeg ac rwy'n frwdfrydig iawn i chwarae rhan llawn yn y broses.

Yn ystod fy mhrofiad addysgu, sylweddolaf bwysigrwydd ennyn diddordeb y disgyblion trwy wneud y pwnc yn gyfoes ac atyniadol. Felly yn ystod fy ngwersi ymdrechais i gynnwys ac arbrofi gyda nifer o dasgau a dulliau dysgu gwahanol. Rwyf wedi gwneud hyn trwy roi pwyslais arbennig ar gynnwys tasgau sy'n dilys i'r byd go iawn, yn cynnwys ysgrifennu negeseuon testun at ffrind i ymarfer mynegi barn a chreu hysbysebion cyfryngau cymdeithasol er mwyn ymarfer ysgrifennu mewn ffurf ffeithiol. Hefyd arbrofais gyda technoleg er mwyn helpu ennyn diddordeb y disgyblion ac yn eu hannog i ddysgu mewn cyd-destunau gwahanol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio Quizlet, Kahoot a Padlet sy'n wych ar gyfer dysgu yn y dosbarth (Pam bo nhw yn wych? Wyt ti yn gallu rhoi enghraifft o EFFAITH hyn ar ddysgu disgyblion?) ond sydd hefyd yn fuddiol i'w defnyddio fel offer adolygu.

Wrth fynychu nifer o gyrsiau ERW, dysgaf sut i ddefnyddio gemau er mwyn datblygu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu'r disgyblion yn ogystal â chreu awyrgylch hwyl ar gyfer dysgu. Rwy'n deall yn llwyr pwysigrwydd cynnwys amrywiaeth o dasgau yn fy addysgu bob dydd er mwyn sicrhau i ennyn diddordeb y disgyblion ond hefyd i addysgu'r disgyblion i fod yn disgyblion creadigol, hyderus, arloesol yn ôl pedwar diben Donaldson. (2015) Wrth ystyried y cwricwlwm newydd, mae'n amlwg bod y galw yn uchel ar gyfer athrawon creadigol ac arloesol a chredaf fy mod yn dal y rhinweddau i gefnogi eich adran Gymraeg yn y newidiadau sydd i ddod.

File Home Insert Draw Layout Review View

B I U A Sensitivity

Rwyf wedi arbrofi gyda nifer o dechnegau asesu ar gyfer dysgu a theimlaf fod mai hyn yw un o fy sgiliau cryfaf fel athrawes. Defnyddiaf asesu ar gyfer dysgu ym mhob gwers er mwyn gweld cynnydd gwaith fy nisgyblion ac effeithiolrwydd fy addysgu. Mae cwestiynu, adborth adeiladol, goleuadau traffig, cwisiau gyda'r byrddau gwyn bach, hunan asesu trwy ymateb i dargedau a gosod gwaith cartref neu brofion diwedd uned ymhlith enghreifftiau rydw i'n defnyddio yn ystod fy ngwersi. Caniata hyn i mi allu addasu fy nghynllunio ar gyfer gwersi yn y dyfodol ac adfyfyrio ar fy addysgu mewn ffordd broffesiynol er mwyn gwneud cynnydd wrth symud ymlaen.

Yn ystod fy mhrofiad dysgu tra ar fy lleoliad cyntaf, cefais y cyfle i ddysgu dosbarthiadau gallu cymysg, setiau uchaf, a disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol. Wrth wneud hyn, rwyf wedi datblygu sgiliau cadarn o wahaniaethu gan sgaffaldio tasgau o bob math er mwyn sicrhau bod gan bob disgybl y gallu i gyrraedd eu potensial llawn. Rwyf wedi gwneud hyn trwy creu matiau iaith gyda geirfa allweddol i'r disgyblion llai hyderus, i'w defnyddio ar gyfer tasgau ysgrifennedig a thasgau llafar, ac hefyd trwy ddarparu matiau iaith her i'r disgyblion gallu uchel, yn cynnwys patrymau uchelgeisiol er mwyn eu helpu ymestyn eu brawddegau. Mae gen i gred gref bod gan bob disgybl y gallu i lwyddo a thrwy addysgu i'r gallu uchaf yn y dosbarth tra sgaffaldio tasgau i'r disgyblion gwanach bydd pob disgybl yn cael ei herio a bydd pob disgybl yn cyrraedd yr amcanion dysgu yn llwyddiannus.

Yn ogystal â datblygu fy sgiliau addysgu trwy brofiadau yn yr ysgol, cefais y cyfle i ddod yn gyfarwydd â thema allweddol y cwrs Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol tri a chefais y cyfle i arbrofi gyda nifer o syniadau gwahanol tra addysgu'r themau dan sylw. O ran y cwrs TGAU, cefais brofiad o addysgu Uned 1 ac Uned 4 yn fanwl, ac arsylwais nifer o wersi lle yr oedd pwyslais ar elfennau eraill y cwrs. Yn ystod fy ngradd yng Nghaerdydd gwirfoddolais mewn ysgol Uwchradd lleol lle yr wyf yn gyfrifol am weithio gyda grwpiau o ddisgyblion ym mlwyddyn 11 y tu allan i'r ystafell ddosbarth er mwyn eu helpu datblygu eu sgiliau llafar ac yn eu paratoi tuag at yr arholiad llafar. Er fy mod i yn fwy cyfarwydd â'r cwrs ail iaith, yn fy mhrofiad addysgu cyntaf cefais y cyfle i addysgu dosbarth blwyddyn saith iaith gyntaf yn astudio'r nofel Snap Sydyn gan Robert Swindells ac mi wnes i arsylwi dosbarth iaith gyntaf blwyddyn naw yn aml. Rwy'n awyddus iawn i ddatblygu ymhellach fy sgiliau addysgu iaith gyntaf a byddaf yn croesawu a gwerthfawrogi unrhyw gyfleoedd i wneud.

Hyd yn hyn, chwaraeais ran llawn yn cyfrannu at fywyd allgyrsiol yr ysgol yn ystod fy lleoliad cyntaf gan fynychu noson rhieni, noson agored blwyddyn 6 ac 11 yn ogystal â chymryd rhan yn mewn diwrnodau HMS yn paratoi tuag at y cwricwlwm newydd. Rwyf wedi gweithio'n galed i godi'r ethos Gymraeg yn yr ysgol hefyd trwy gymryd cyfrifoldeb dros y clwb Cymraeg a gynhelir unwaith yr wythnos yn ystod amser cinio wrth baratoi adnoddau, yn hysbysebu ac yn rhedeg y clwb. Rhoddodd fy nghefndir fel nofiwr, hyfforddwr nofio ac athro nofio cymwys y sgiliau i mi hefyd i gynorthwyo gyda rhedeg clwb nofio'r ysgol. Credaf yn gryf bod gweithgareddau allgyrsiol yn darparu cyfleoedd i adeiladu a datblygu perthnasoedd gyda'r disgyblion drwodd yr ysgol ac rwyf wastad wedi dangos parodrwydd ac ymrwymiad i gyfrannu at raglenni ar ôl amser ysgol dra ar leoliadau mewn ysgolion. Edrychaf ymlaen at gael y siawns i gyfrannu

File Home Insert Draw Layout Review View

B I U A Sensitivity

at y cyfleoedd rhagorol a ddarparwyd gan eich ysgol p'un yn cael ffocws academaidd, iechyd a lles neu fwynhad y disgyblion.

Wrth ystyried fod yn athrawes, mae'n amlwg bod y rôl yn ymestyn y tu hwnt i gynllunio gwersi a gweithgareddau allgyrsiol oherwydd mae hefyd rôl bugeiliol i'w chwarae. Edrychaf ymlaen at y gyfle i fod yn diwtor dosbarth oherwydd fy mod i'n unigolyn sy'n deall pa mor bwysig yw sicrhau bod y disgyblion yn gallu dod i ysgol lle y maent yn teimlo'n saff, yn gyfforddus, yn hapus ac wedi'i gefnogi. Credaf wrth fod yn diwtor dosbarth mae yna cyfle i ffurfio perthnasoedd cryf gyda'r disgyblion ac i fod yn ffigur cyson o gyngor a chefnogaeth trwy gydol eu bywydau ysgol. Mae datganiad o genhadaeth Dyffryn Taf 'Gallwn, Gofalwn' yn un sy'n cyd-fynd â fy moesau ac rhinweddau yn llwyr oherwydd credaf yn gryf bod trwy bwysleisio i'r disgyblion ein bod ni'n gofalu, ac ein bod ni'n mynd i'w gefnogi trwy gydol eu bywyd academaidd a thu hwnt, bydd y disgyblion yn gallu hunan hyder a'r gallu i ffynnu mewn awyrgylch sy'n gefnogol a maethlon ond sydd hefyd yn eu hannog i anelu at ragoriaeth.

Rwy'n unigolyn bywiog sy'n gweithio'n galed i lwyddo ym mhob agwedd o fy mywyd ac yn benderfynol i oresgyn unrhyw heriau sy'n fy wynebu i. Rwy'n edrych ymlaen at rannu fy mhersonoliaeth frwdfrydig ac angerdd o'r iaith Gymraeg gyda myfyrwyr y dyfodol a byddwn yn ymhyfrydu yn y cyfle i weithio i'ch ysgol sy'n uchel ei pharch a bod yn rhan o'ch tîm Croesawaf y cyfle i barhau i ymestyn fy sgiliau ac ehangu fy ngwybodaeth trwy ddysgu a rhannu gyda'ch staff presennol. Mae'r cyfle i weithio fel athrawes Cymraeg, mewn adran sydd â disgwyliadau a chyflawniadau uchel yn gyffrous iawn, a gobeithio y caf gyfle i drafod hyn ymhellach gyda chi.

Wrth ymgeisio am swyddi, rydw i hefyd wedi bod yn datblygu fy nghymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar. Gwelir uchod fy natganiad personol fy mod i wedi ysgrifennu yn Gymraeg, lle yr oedd angen imi sicrhau i ysgrifennu yn ffurfiol ac mewn ffordd proffesiynol yn ogystal â mewn fordd clir a chywir. Hefyd, yr oedd rhaid imi wneud y un peth, ond ar lafar wrth fynychu cyfweliad lle eto, yr oedd rhaid imi sicrhau i ddefnyddio iaith ffurfiol a phroffesiynol ar lafar.